Lle Natur Cymunedol Glan Elwy

Disgrifiad o Luniau i Bobl Ddall

Mae’r Safle Natur Cymunedol arfaethedig yn y cae yn union i’r de o dafarn y ‘New Inn’ yn Llanelwy, rhwng Ffordd Dinbych Isaf ac Afon Elwy. Byddai mynediad iddo o'r llwybr troed presennol ar lan yr afon.

Byddai'r gwrych a'r coetir presennol ar hyd yr afon yn cael eu gwella trwy blannu mwy o goed. Byddai dau lwyfan gwylio coetir yn cael eu hadeiladu a byddai arwyddion gyda gwybodaeth am y safle yn cael eu gosod ar bob pen i'r llwybr troed.

Byddai prif ran y cae yn cael ei ddefnyddio i greu dôl blodau gwyllt gyda gwlypdiroedd yn y canol. Byddai'r rhan ganolog hon o'r cae yn cael ei ffensio i atal mynediad cyhoeddus. Fodd bynnag, byddai lle i gylchredeg o amgylch y perimedr, yn rhannol er mwyn cadw mynediad clir i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal a chadw’r wal lifogydd ar hyd ochr y ffordd. Byddai meinciau'n cael eu darparu yn y llain perimedr i ganiatáu i ymwelwyr eistedd a mwynhau'r Safle Natur Cymunedol.

Ym mhen deheuol y safle, byddai coetir bychan yn cael ei greu. Byddai'r ardal hon yn cael ei ffensio i amddiffyn y coed rhag ceirw. Ym mhob rhan o’r safle, byddai rhai coed hirgyff helyg, gwern, derw, bedw a chriafol yn cael eu plannu.